# Atebion i Gwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad i'w hateb ar 11 Rhagfyr 2009

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

## Cynnwys


2 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau

3 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau*

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** Pa gyngor a chymorth ariannol sydd ar gael i oedolion â dyslecsia neu anawsterau dysgu. (WAQ55263)

***Rhoddwyd ateb ar 21 Rhagfyr 2009***

Bydd colegau, ysgolion neu ddarparwyr dysgu seiliedig ar waith yn asesu dysgwyr ar gyfer anghenion ychwanegol megis dyslecsia, a bydd arian ychwanegol ar gael i ysgolion ôl-16, colegau a darparwyr dysgu seiliedig ar waith i sicrhau bod eu darpariaeth yn diwallu'r anghenion hyn drwy gymorth megis cyfrannu at gost asesu; cymorth atodol; a chymorth technegol megis gliniaduron a meddalwedd arbenigol.

Gall myfyrwyr addysg uwch fod yn gymwys ar gyfer Lwfans Myfyriwr Anabl, a weinyddir gan eu hawdurdod addysg lleol ac sydd ar gael i helpu sicrhau cymorth dysgu ychwanegol. Yn ogystal, mae Skill (y Swyddfa Genedlaethol ar gyfer Myfyrwyr gydag Anableddau Dysgu) yn gweithio gyda dysgwyr anabl, darparwyr addysg a hyfforddiant ôl-16 a sefydliadau gwirfoddol eraill i ddarparu cyngor ymarferol i ddysgwyr o bob oedran ar gael addysg a hyfforddiant ôl-16 a manteisio i'r eithaf arno.

Yn ogystal mae gan ddysgwyr sy'n oedolion sydd â dyslecsia neu anawsterau dysgu yr hawl i gael cymorth ariannol prif ffrwd i ddysgwyr megis Grant Dysgu'r Cynulliad, a bydd gan ddysgwyr sy'n oedolion ifanc yr hawl i gael lwfansau Cynhaliaeth Addysg o dan reolau arferol y cynllun.

Mater i'r awdurdodau lleol ac asiantaethau cyfrifol eraill yw asesu anghenion oedolion sydd ag anawsterau dysgu nad ydynt mewn addysg na hyfforddiant ac i benderfynu pa wasanaethau a threfniadau cymorth ddylai fod ar waith i ddiwallu'r anghenion hynny a aseswyd.

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ei hystyriaeth o argymhellion grŵp rapporteur y Pwyllgor Menter a Dysgu i wasanaethau ar gyfer pobl â dyslecsia. (WAQ55264)

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** Pa rai o argymhellion grŵp rapporteur y Pwyllgor Menter a Dysgu i wasanaethau ar gyfer pobl â dyslecsia sydd wedi cael eu rhoi ar waith. (WAQ55265)

***Rhoddwyd ateb ar 21 Rhagfyr 2009***

Roedd fy Natganiad Ysgrifenedig i'r Pwyllgor Menter a Dysgu dyddiedig 23 Medi 2009 yn rhoi'r newyddion diweddaraf am y camau a gymerwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru mewn ymateb i adroddiad y pwyllgor 'Cymorth i Bobl â Dyslecsia yng Nghymru', a gyhoeddwyd yn 2008. Mae copi ar gael ar wefan Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Ar y cyfan, mae'n bleser gennyf nodi i gynnydd da gael ei wneud o ran cyflawni'r prif argymhellion ond, fel y mae'r Pwyllgor yn cydnabod, bydd llawer o'r gwaith hwn yn cymryd amser i ddwyn ffrwyth.

Eisoes, rydym wedi dechrau adolygiad o'r llenyddiaeth, ac wedi dechrau ymarfer archwilio a meincnodi o ran arfer effeithiol ledled Cymru. Mae £118,000 ar gael dros y ddwy flynedd nesaf i gyflawni'r gwaith allweddol hwn, a fydd yn sicrhau dull cyson o ran diffinio dyslecsia, ei adnabod, a darparu dulliau gweithredu priodol ac effeithiol.

Rwyf hefyd wedi sefydlu grŵp gorchwyl bach sy'n cynnwys arbenigwyr ym maes anawsterau dysgu penodol ledled Cymru, ac mae fy swyddogion yn parhau i weithio'n agos â Chymdeithas Dyslecsia Prydain i wella gwasanaethau.

Fel y gwyddoch o bosibl, cyhoeddodd y Grŵp Rapporteur adroddiad dilynol ym mis Hydref, sy'n cydnabod y gwaith sy'n mynd rhagddo eisoes ac sydd hefyd yn gwneud nifer o argymhellion ychwanegol. Rwyf yn croesawu'r ail adroddiad hwn, sy'n seiliedig ar dystiolaeth ychwanegol a dderbyniwyd gan y Pwyllgor yn eu cyfarfod ym mis Medi. Byddaf yn cyhoeddi fy adroddiad yn fuan ar wefan Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

**Jenny Randerson (Canol Caerdydd):** A wnaiff y Gweinidog gadarnhau sut y mae'r arian sy'n cael ei ddarparu gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer cludiant rhwng sefydliadau fel rhan o lwybrau dysgu 14-19 yn cael ei rannu rhwng awdurdodau lleol yng Nghymru. (WAQ55266)

***Rhoddwyd ateb ar 21 Rhagfyr 2009***

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn darparu £32.5m o arian y flwyddyn i gefnogi awdurdodau lleol i ddatblygu Llwybrau Dysgu 14-19 yn lleol. Dyrennir yr arian yn ôl dyraniad sylfaen ynghyd â chyfran fformiwla sy'n seiliedig ar nifer y dysgwyr, amddifadedd a phrinder. Mae'r Rhwydweithiau 14-19 yn defnyddio'r arian hwn i ddatblygu cyfleusterau, cefnogi cydweithredu lleol, datblygu'r cwricwla lleol, a chefnogi gwasanaethau cymorth i ddysgwyr. Mae'r Rhwydweithiau yn penderfynu sut y caiff yr arian ei wario drwy eu Cynlluniau Datblygu Rhwydwaith Blynyddol ac felly'n penderfynu faint o'r arian a ddefnyddir ar gyfer trafnidiaeth.

Er mwyn sicrhau dewis ehangach, mae angen i sefydliadau dysgu gydweithredu er mwyn lleihau dyblygu ymdrechion, a thrwy gronni arbenigedd mewn pynciau penodol gallant gynnig cwricwlwm eang a chytbwys i bobl ifanc. Lle y bo'n bosibl anogir Rhwydweithiau i sicrhau bod dysgwyr yn cael eu symud cyn lleied â phosibl rhwng sefydliadau, gwnaed hyn mewn sawl ardal drwy sicrhau bod yr athro yn teithio i ysgolion gwahanol a thrwy ddefnyddio TG yn cynnwys Fideo-gynadledda.

**Jenny Randerson (Canol Caerdydd):** A wnaiff y Gweinidog gadarnhau faint o arian sydd wedi cael ei roi o'r neilltu ar gyfer Cludiant i awdurdodau lleol fel rhan o weithredu Llwybrau Dysgu 14-19. (WAQ55267)

***Rhoddwyd ateb ar 21 Rhagfyr 2009***

Fel nodais yn fy ymateb i WAQ55266 nid yw Llywodraeth y Cynulliad yn neilltuo arian penodol ar gyfer trafnidiaeth. Y Rhwydweithiau sy'n penderfynu'n lleol sut y dyrennir arian i ddiwallu gofynion Llwybrau Dysgu, yn cynnwys yr elfen o fwy o ddewis.

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol*

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** A yw gweithgor y Gweinidog ar wasanaethau mamolaeth wedi cynhyrchu ei adroddiad terfynol ac a yw'r Gweinidog yn bwriadu gweithredu ar ei argymhellion. (WAQ55261)

***Rhoddwyd ateb ar 21 Rhagfyr 2009***

Nid yw'r gweithgor wedi llunio ei adroddiad terfynol eto. Mae hwn yn faes cymhleth, gyda chysylltiadau pwysig rhwng gwasanaethau mamolaeth, gwasanaethau newydd-anedig a phediatreg. Mae'n bwysig ein bod yn gweithio drwy faterion amrywiol cyn dod i unrhyw gasgliadau pendant.

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** Pryd y mae'r Gweinidog yn disgwyl cael yr adroddiad am fynediad at wasanaethau iechyd meddwl ar gyfer cleifion du a lleiafrifoedd ethnig. (WAQ55262)

***Rhoddwyd ateb ar 21 Rhagfyr 2009***

Os ydych yn cyfeirio at y Cynlluniau Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol Lleol Blynyddol cyntaf ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl oedolion, bu fy swyddogion yn cyfarfod â rhanddeiliaid allweddol i adolygu'r cynlluniau a'r cynnydd fel y nodwyd yn y Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol Cenedlaethol.

Caiff eu canfyddiadau a'u hargymhellion dilynol eu cyflwyno i mi eu hystyried yn fuan.

Rwyf hefyd yn aros am gyhoeddiad Cyfrifiad "Count Me In" eleni, adroddiad ar gyfer y DU sy'n ystyried amryw o faterion iechyd meddwl ac ethnigrwydd mewn amgylcheddau cleifion mewnol. Disgwylir i hwn gael ei gyhoeddi'n fuan iawn.